# PA1A — Gwneud cais am brofiant

Mae'r ffurflen hon ar gyfer gwneud cais pan **nad yw'r unigolyn sydd wedi marw wedi gadael ewyllys** sydd yn ymdrin ag asedau yng Nghymru a Lloegr

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon ffoniwch

**Llinell Gymorth Profiant**
**0300 303 0654**

Ni allwn roi cyngor cyfreithiol

**A wyddoch chi bod modd ichi wneud cais am Brofiant arlein?**

www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant
O nad ydych yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd, neu os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur neu ffôn clyfar, ffoniwch y Llinell Cymorth Digidol ar 03300 160051 a fydd yn eich helpu chi.

**Angen cyngor cyfreithiol?**
Ewch i www.citizensadvice.org.uk neu gofynnwch am help gan weithiwr proffesiynol ym maes y gyfraith.

**Rhestr wirio – cyn ichi anfon eich ffurflen gais i Adran Brofiant GLlTEF, bydd angen i chi amgáu'r canlynol. Rhaid cwblhau'r rhestr wirio hon. Os nad ydych yn amgáu'r holl ddogfennau angenrheidiol, bydd hynny'n arafu'r broses o ymdrin â'ch cais. Dylech gadw copïau o'r holl ddogfennau rydych yn eu hanfon.**

- ☐ PA1A – Gwneud cais am brofiant (y ffurflen hon)
- ☐ Ffurflen Crynodeb Treth Etifeddiant: Mae'n rhaid i chi amcangyfrif gwerth yr ystad cyn llenwi'r ffurflen hon. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn arafu'r broses o ymdrin â'ch cais.
- ☐ Copi o unrhyw ewyllysiau tramor neu unrhyw ewyllysiau sy'n delio ag asedau a ddelir y tu allan i Gymru a Lloegr (ac os nad ydynt yn Saesneg, cyfieithiad Saesneg).
- ☐ Copi swyddogol (**nid** llungopi) o'r dystysgrif marwolaeth, neu dystysgrif marwolaeth interim gan y crwner ar gyfer yr unigolyn sydd wedi marw.
- ☐ Unrhyw ddogfennau eraill y gofynnir amdanynt yn y ffurflen hon. Rhestrwch nhw yma:

Yn ogystal â'r ffi am wneud cais, codir ffi am bob copi swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth a ddarparwn.

Faint o gopïau swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio **yn** y Deyrnas Unedig? ☐

Faint o gopïau swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio **y tu allan** i'r Deyrnas Unedig? ☐

| | |
|---|---|
| Ffi am wneud cais | £ |
| Ffi am wneud copïau | £ |
| **Cyfanswm ffioedd** | £ |

- ☐ Siec/archeb bost yn daladwy i '**GLlTEF**' ar gyfer ffioedd GLlTEF. Ysgrifennwch enw'r unigolyn sydd wedi marw ar gefn y siec.

**Anfonwch eich ffurflen a'r dogfennau angenrheidiol gyda'ch taliad i:** GLlTEF Profiant, Blwch Post 12625, Harlow, CM20 9QE



©Hawlfraint y Goron 2024

## ADRAN A – GWYBODAETH BERSONOL

### 1. **Manylion y ceisydd (ceiswyr) –** Rhaid i bob ceisydd fod dros 18 oed a gall uchafswm o 4 ceisydd wneud cais

**1.1** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol y **ceisydd cyntaf**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**1.2** Eich cyfeiriad

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**Defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU a thiciwch y blychau sy'n berthnasol.**

**Nodyn 1.1 -**
Anfonir yr holl ohebiaeth, gan gynnwys y Grant Cynrychiolaeth at y ceisydd cyntaf a enwir yn yr adran hon.
Rhestrwch y ceiswyr sy'n dymuno cael eu henwi ar y grant yn unig yn yr adran hon; bydd rhaid iddynt lofnodi'r ddogfen hon.

Nodwch fod rhaid i'r enwau a ddarperir gennych yma gyfateb i'r enwau sydd ar eich dogfennau adnabod ffurfiol, e.e. pasbort neu drwydded yrru.

Os oes unigolion o dan 18 oed yn cael budd o'r ystad, yna bydd angen nodi manylion dau geisydd (neu o leiaf dau) yn Adran A. Efallai y byddwch eisiau cysylltu ag Adran Brofiant GLITEF i ofyn am wybodaeth ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais.

**1.3** Eich rhif ffôn cartref

**1.4** Eich rhif ffôn symudol/gwaith

**1.5** Eich cyfeiriad e-bost

**1.6** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol yr **ail geisydd**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**Nodyn1.5 – Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad ebost hwn i gysylltu â chi os bydd gennym unrhyw ymholiadau.**
Byddwn yn ceisio cysylltu â chi o fewn 10 diwrnod gwaith i'ch cais ein cyrraedd.

**1.7** Cyfeiriad yr ail geisydd

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.8** Cyfeiriad e-bost

**1.9** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol y **trydydd ceisydd**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**1.10** Cyfeiriad y trydydd ceisydd

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.11** Cyfeiriad e-bost

**1.12** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol y **pedwerydd ceisydd**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**1.13** Cyfeiriad y pedwerydd ceisydd

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.14** Cyfeiriad e-bost y pedwerydd ceisydd

## ADRAN B

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon o'r ffurflen gais yn sail i'ch datganiad gwirionedd, a chaiff ei chadw fel cofnod cyhoeddus.

Os oes arnoch angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon ffoniwch
**Llinell Gymorth Profiant**
**0300 303 0654**
Ni allwn roi cyngor cyfreithiol

### 2. Dywedwch wrthym am yr unigolyn sydd wedi marw

**2.1** Enw(au) cyntaf (gan gynnwys pob enw canol) fel y maent yn ymddangos ar y Dystysgrif Marwolaeth

**2.2** Cyfenw fel y mae'n ymddangos ar y Dystysgrif Marwolaeth

**2.3** Cyfeiriad parhaol

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**2.4** Dyddiad geni

**2.5** Dyddiad marwolaeth

**2.6** A oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn cael ei adnabod wrth unrhyw enw arall y byddai wedi'i ddefnyddio i ddal asedau?

☐ Oedd, **ewch i gwestiwn 2.7**

☐ Nac oedd, **ewch i gwestiwn 2.8**

**2.7** Rhowch fanylion unrhyw enwau eraill yr oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn eu defnyddio i ddal asedau.

| Enw Llawn |
|---|
| |

**Nodyn 2.7 –** Rhaid i'r enwau hyn fod yn rhai a fydd yn ymddangos ar y grant oherwydd bod ased yn yr enw hwnnw. Nid ydym angen gwybod manylion yr ased.

**2.8** A oedd yr unigolyn a fu farw yn byw yn barhaol yng Nghymru a Lloegr ar ddyddiad ei farwolaeth, neu'n bwriadu dychwelyd i Gymru a Lloegr i fyw'n barhaol?
(I ddibenion cyfreithiol, golyga hyn bod eu domisil yng Nghymru a Lloegr. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol ynghylch hyn.)

☐ Oedd

☐ Nac oedd

**Nodyn 2.8 –**Ystyr byw'n barhaol yw bod cartref parhaol yr unigolyn a fu farw yng Nghymru a Lloegr neu fod ei brif gartref yno ar ddyddiad ei farwolaeth neu ei fod yn bwriadu dychwelyd i Gymru a Lloegr i fyw'n barhaol.

**2.9** A gafodd yr unigolyn a fu farw neu unrhyw un o'i berthnasau eu mabwysiadu'n gyfreithlon i'r teulu neu o'r teulu?

☐ Do, gweler nodyn 2.9

☐ Naddo, **ewch i gwestiwn 2.11**

**Nodyn2.9 –** Os bu ichi ateb 'Do' i'r cwestiwn hwn, efallai y bydd angen ichi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol unwaith y byddwn wedi cael eich cais.

**2.10** Nodwch enwau'r perthnasau sydd wedi'u mabwysiadu'n gyfreithlon a'u perthynas â'r unigolyn sydd wedi marw. Nodwch a gawsant eu 'mabwysiadu i mewn' i deulu'r unigolyn sydd wedi marw, neu eu 'mabwysiadu allan' (wedi ymuno â theulu rhywun arall).

| Enw | Perthynas | Wedi'i fabwysiadu **i mewn** ynteu **allan** o'r teulu |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**2.11** Beth oedd statws priodasol yr unigolyn sydd wedi marw adeg ei farwolaeth?

- ☐ Erioed wedi priodi
- ☐ Gweddw, ei b/phriod neu ei b/phartner sifil cyfreithlon wedi marw ynghynt
- ☐ Wedi priodi/mewn partneriaeth sifil - nodwch y dyddiad
- ☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi diddymu - nodwch y dyddiad
- ☐ Ymwahaniad cyfreithiol – nodwch y dyddiad

**2.12** Beth yw enw'r llys lle y cyhoeddwyd y Dyfarniad Absoliwt, y Dyfarniad Diddymu Partneriaeth neu'r Dyfarniad Ymwahaniad Cyfreithiol?

**2.13** A oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn berchen ar unrhyw asedau tramor?

- ☐ Oedd, cyfanswm gwerth ei asedau tramor (heb gynnwys tai neu dir) yw

£

- ☐ Nac oedd

**2.14** A oedd unrhyw dir wedi'i freinio yn yr unigolyn sydd wedi marw a setlwyd cyn ei farwolaeth ac a oedd dal yn dir a setlwyd er gwaethaf ei farwolaeth?

- ☐ Oedd
- ☐ Nac oedd

**Nodyn 2.11** – Partneriaeth sifil yw perthynas o'r un rhyw sydd wedi'i chofrestru yn unol â Deddf Partneriaeth Sifil 2004. Mae priodas yn seremoni gyfreithiol a gynhelir yn y DU o dan Ddeddfau Priodas 1949, 1994 a Deddf Priodas (Priodasau o'r Un Rhyw) 2013 neu o dan ddeddfwriaeth mewn unrhyw wlad arall dan y gyfraith sy'n gymwys yno. Dyddiad yr ysgariad - Mae'r dyddiad hwn ar eu Dyfarniad Absoliwt, Dyfarniad Diddymu'r Bartneriaeth neu'r Dyfarniad Ymwahaniad Cyfreithiol.
Gallwch gael copi swyddogol o'r dogfennau hyn o'r llys a'u cyhoeddodd, neu gan The Divorce Absolute Search Section, Central Family Court, 42–49 High Holborn, Llundain WC1V 6NP.

**Nodyn 2.14** –Mae'n anghyffredin i ystadau fod yn destun darpariaethau Deddf Tir Setledig 1925, ond os gwyddoch fod y ddeddf hon yn berthnasol neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, yna ceisiwch gyngor cyfreithiol.

## 3. Perthnasau'r unigolyn sydd wedi marw

**3.1** A wnaeth yr unigolyn sydd wedi marw adael priod neu bartner sifil cyfreithlon sy'n ei oroesi?

☐ Do

☐ Naddo

**Nodyn 3.1 –** 'Ystyr 'goroesi' ydy eu bod yn fyw pan fu farw'r unigolyn sydd wedi marw.

**3.2** Faint o'r perthnasau trwy waed a pherthnasau mabwysiadol canlynol oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw?

| | | O dan 18 oed | Dros 18 oed |
|---|---|---|---|
| **a** | Faint o feibion neu ferched yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **b** | Faint o feibion neu ferched yr unigolyn a fu farw na wnaeth ei oroesi? | | |
| **c** | Faint o blant y bobl a nodwyd yn 'b' wnaeth ei oroesi? | | |

**Nodyn 3.2 –** Nodwch **faint** o berthnasau a oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw yn y blychau perthnasol. Os nad oes perthnasau, nodwch 'dim' neu rhowch linell drwyddo. Os ydych yn ansicr ynghylch perthnasau'r bobl sy'n gwneud cais, yna cysylltwch ag Adran Brofiant GLlTEF.

Cadarnhewch os yw unrhyw un o'r ceiswyr yn wyrion/wyresau yr unigolyn a fu farw (3.2c), bod eu rhiant yn un o'r unigolion y cyfeirir atynt yn 3.2b. Os nad ydynt, yna ni allant wneud cais.

☐ Ydy

Os ydych wedi nodi manylion yn unrhyw un o'r blychau uchod, ewch i gwestiwn 3.5. Os nad ydych wedi gwneud hynny, ewch ymlaen i gwestiwn 3.3

**Noder –** Gan ddibynnu ar werth net yr ystad, efallai nad priod/partner sifil cyfreithlon yr unigolyn a fu farw fydd yr unig unigolyn sydd â hawl i'r ystad. Ceisiwch gyngor cyfreithiol ynghylch dosbarthu'r ystad.
Mae gan yr holl berthnasau o'r un categori â'r ceisydd hawl i gyfran o'r ystad gan gynnwys plant/disgynyddion i unrhyw un sydd wedi marw'n barod. Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch dosbarthiad yr ystad, dylech geisio cyngor cyfreithiol.

**3.3** Faint o'r perthnasau trwy waed a pherthnasau mabwysiadol canlynol oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw?

Os ydych wedi rhoi manylion yn unrhyw un o'r blychau yng nghwestiwn 3.2, ewch ymlaen i gwestiwn 3.5

| | | O dan 18 oed | Dros 18 oed |
|---|---|---|---|
| **d** | Faint o rieni'r unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **e** | Faint o frodyr neu chwiorydd gwaed coch cyfan yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **f** | Faint o frodyr neu chwiorydd gwaed coch cyfan yr unigolyn a fu farw na wnaeth ei oroesi? | | |
| **g** | Faint o blant y bobl a nodwyd yn (f) wnaeth ei oroesi? | | |
| **h** | Faint o frodyr neu chwiorydd hanner gwaed yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **i** | Faint o frodyr neu chwiorydd hanner gwaed yr unigolyn a fu farw na wnaeth ei oroesi? | | |
| **j** | Faint o blant y bobl a nodwyd yn (i) wnaeth ei oroesi? | | |

Cadarnhewch os oes unrhyw un o'r ceiswyr yn neiaint neu'n nithoedd gwaed coch cyfan neu hanner gwaed yr unigolyn a fu farw (cwestiynau 3.3g a 3.3j), bod eu rhiant yn un o'r unigolion y cyfeirir atynt yn 3.3f neu 3.3i. Os nad ydynt, yna ni allant wneud cais.

☐ Ydy

Os ydych wedi nodi manylion yn unrhyw un o'r blychau uchod, ewch i gwestiwn 3.5. Os nad ydych wedi gwneud hynny, ewch ymlaen i gwestiwn 3.4.

**Nodyn 3.3 -** Unwaith y byddwch wedi nodi rhif yn un o'r blychau perthnasol (e.e. 3.3d i 3.3j), dylech fynd ymlaen i gwestiwn 3.5.

Ni ddylech gynnwys llysberthnasau.

Brawd neu chwaer **'gwaed coch cyfan'** yw rhywun sydd â'r ddau riant yn gyffredin â'r unigolyn sydd wedi marw, neu rywun a gafodd ei fabwysiadu'n gyfreithlon gan ddau riant yr unigolyn sydd wedi marw.

Brawd neu chwaer **'hanner gwaed'** yw rhywun sydd ag un rhiant yn unig yn gyffredin â'r unigolyn sydd wedi marw, neu rywun a gafodd ei fabwysiadu'n gyfreithlon gan un yn unig o rieni'r unigolyn sydd wedi marw.

**3.4** Faint o'r perthnasau trwy waed a pherthnasau mabwysiadol canlynol oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw?

Os ydych wedi rhoi manylion yn unrhyw un o'r blychau yng nghwestiwn 3.3, ewch ymlaen i gwestiwn 3.5.

| | | O dan 18 oed | Dros 18 oed |
|---|---|---|---|
| **a** | Faint o neiniau a theidiau yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **b** | Faint o ewythrod neu fodrybedd 'gwaed coch cyfan' yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **c** | Faint o ewythrod neu fodrybedd 'gwaed coch cyfan' yr unigolyn a fu farw na wnaeth ei oroesi? | | |
| **d** | Faint o blant y bobl a nodwyd yng nghwestiwn 3.4c wnaeth ei oroesi? | | |
| **e** | Faint o ewythrod neu fodrybedd 'hanner gwaed' yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **f** | Faint o ewythrod neu fodrybedd 'hanner gwaed' yr unigolyn a fu farw na wnaeth ei oroesi? | | |
| **g** | Faint o blant y bobl a nodwyd yng nghwestiwn 3.4f wnaeth ei oroesi? | | |

Cadarnhewch os yw unrhyw un o'r ceiswyr yn gefndryd neu'n gyfnitherod gwaed coch cyfan neu hanner gwaed yr unigolyn a fu farw (cwestiynau 3.4d a 3.4g), bod eu rhiant yn un o'r unigolion y cyfeirir atynt yn 3.4c neu 3.4f. Os nad ydynt, yna ni allant wneud cais.

☐ Ydy

**3.5.** Nodwch berthynas pob unigolyn sy'n gwneud cais am y grant â'r unigolyn sydd wedi marw. (Os ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran rhywun arall, yna rhowch atwrnai)

**Disgrifiad o'r berthynas**

Ceisydd cyntaf

Ail geisydd

Trydydd ceisydd

Pedwerydd ceisydd

**Nodyn 3.4 –** Dim ond os nad oes perthnasau wedi'u nodi yng nghwestiwn 3.3 y dylid ateb y cwestiwn hwn. Nodwch nifer y perthnasau oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw yn yr adrannau perthnasol. Os nad oes perthnasau, rhowch 'Dim' neu rhowch linell drwyddo.

Ni ddylid cynnwys llysberthnasau na phobl a oedd yn perthyn drwy briodas yn unig i'r unigolyn sydd wedi marw.

Ewythr neu fodryb **'gwaed coch cyfan'** yw rhywun sydd â'r ddau riant yn gyffredin â mam neu dad yr unigolyn sydd wedi marw, neu rywun a fabwysiadwyd yn gyfreithlon gan neiniau neu deidiau mamol neu dadol yr unigolyn sydd wedi marw.

Ewythr neu fodryb **'hanner gwaed'** yw rhywun sydd ag un rhiant yn unig yn gyffredin â mam neu dad yr unigolyn sydd wedi marw, neu rywun a fabwysiadwyd yn gyfreithlon gan un yn unig o neiniau neu deidiau yr unigolyn sydd wedi marw.

## 4. Gwneud cais fel atwrnai

**4.1** A ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran un neu fwy o'r bobl sydd â hawl i wneud cais am Grant Cynrychiolaeth? **Darllenwch Nodyn 4 cyn parhau.**

☐ Ydw, **ewch ymlaen i gwestiwn 4.2**

☐ Nac ydw**, ewch ymlaen i adran 5**

**4.2** Rhowch enw(au) llawn yr unigolyn neu'r unigolion yr ydych yn gwneud cais ar eu rhan a'u perthynas â'r unigolyn sydd wedi marw.

**4.3** Rhowch eu cyfeiriad

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**4.4** A yw unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran yn methu â gwneud penderfyniad ei hun oherwydd nam neu ymyrraeth â gweithrediad ei feddwl neu ei ymennydd?

☐ Ydy, bydd y Gofrestrfa Brofiant yn gofyn am gadarnhad pellach o hyn.

☐ Nac ydy

**4.5** A oes unrhyw un wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod i weithredu ar ran unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran, yn cynnwys yr hawl i wneud cais am Grant Cynrychiolaeth?

☐ Oes, **darparwch gopi swyddogol o'r gorchymyn llys gyda'ch cais**

☐ Nac oes

**Nodyn 4 –** Os ydych yn gwneud cais ar ran mwy nag un unigolyn, rhowch yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr adran hon ar gyfer y bobl eraill yr ydych yn eu cynrychioli ar ddalen ar wahân. Efallai y bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i'r unigolyn sy'n eich penodi fel eu hatwrnai ei llofnodi. Ewch i GOV.UK (gov.uk/wills-probate-inheritance/if-youre-an-executor) i i argraffu ffurflen PA12 neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'Atwrnai' ac mi wnawn anfon y ffurflen atoch.

**Bydd angen ichi anfon y ffurflen atwrnai atom gyda'r cais hwn.**

Os oes pobl o dan 18 oed yn cael budd o'r ystad, yna bydd angen nodi manylion dau geisydd (neu o leiaf dau) yn Adran A. Efallai y byddwch eisiau cysylltu ag Adran Brofiant GLITEF i ofyn am wybodaeth ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais.

**Nodyn 4.4 –** Mae hyn yn berthnasol os oes ganddynt ddiffyg galluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac os nad ydynt yn gallu rheoli eu heiddo a'u materion ariannol. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol am hyn.

Mewn rhai achosion efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth feddygol. Os nad oes gennych dystiolaeth feddygol eisoes gan ymarferydd cymwys neu os ydych yn defnyddio Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus (EPA) cofrestredig, bydd angen math byr o dystiolaeth feddygol.

Ewch i GOV.UK (www.gov.uk/government/publications/form-pa14-medical-certificate-probate) i argraffu ffurflen PA14 neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'Tystiolaeth feddygol' ac mi wnawn anfon y ffurflen atoch.

**4.6** A yw unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran wedi penodi atwrnai fel rhan o Atwrneiaeth Barhaus (EPA) neu Atwrneiaeth Arhosol (LPA) Eiddo a Materion Ariannol?

- [ ] Ydy, **darparwch yr EPA/LPA wreiddiol (neu gopi ardystiedig gan gyfreithiwr sydd wedi'i ardystio ar bob tudalen) gyda'ch cais**
- [ ] Nac ydy **ewch i Adran 6**

**4.7** A yw'r Atwrneiaeth Barhaus (EPA) wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus?

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**Nodyn 4.6 –** Rhaid i LPA fod wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus cyn y gellir ei defnyddio.

## 5. Byw Dramor

**Sylwch – Os gwnaethoch ateb 'Oedd' i gwestiwn 2.8 nid oes angen i chi lenwi'r adran hon; ewch i Adran 6.**

**5.1** Ym mha wlad yr oedd yr unigolyn a fu farw naill ai'n byw'n barhaol ar ddyddiad ei farwolaeth neu'n bwriadu dychwelyd i fyw'n barhaol?

**5.2** Beth mae ystad yr unigolyn sydd wedi marw yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys?

| Asedau | Gwerth |
|---|---|
| | |

**5.3** A oes dogfen ymddiried wedi'i chyhoeddi gan y llys yn y wlad lle'r oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn byw?

☐ Oes, **darparwch y ddogfen swyddogol gyda'ch cais; os nad yw'n Saesneg, darparwch gyfieithiad swyddogol hefyd. Ewch ymlaen i adran 6.**

☐ Nac oes

**Nodyn 5.3 a 5.4 –** Gall y dogfennau hyn helpu i gefnogi eich cais. Os nad oes gennych unrhyw un o'r dogfennau hyn, efallai y bydd arnoch eisiau ceisio cyngor cyfreithiol.

**5.4** A oes tystysgrif olynu, tystysgrif etifeddu neu ddogfen gyfatebol wedi'i chyhoeddi gan lys neu Notari yn y wlad lle'r oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn byw?

☐ Oes, **darparwch y ddogfen swyddogol gyda'ch cais; os nad yw'n Saesneg, darparwch gyfieithiad swyddogol hefyd.**

☐ Nac oes

## 6. Treth etifeddiant

**6.1** A wnaeth yr unigolyn farw ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022?

☐ Do. **Ewch i gwestiwn 6.2**

☐ Naddo. **Ewch i Adran 7**

**6.2** Pa ffurflen wnaethoch chi lenwi?

☐ Nid oedd gofyn i mi gyflwyno unrhyw ffurflenni i HMRC. **Ewch i gwestiwn 6.3** (Nid yw adnodd gwirio IHT yn ffurflen)

☐ IHT400. **Ewch i gwestiwn 6.6**

☐ IHT400 ac IHT421. **Ewch i gwestiwn 6.7**

☐ IHT207. **Ewch i gwestiwn 6.8**

**6.3** Darparwch y gwerthoedd canlynol o'r ystad ar gyfer treth etifeddiant

gwerth gros yr ystad ar gyfer treth etifeddiant £

gwerth net yr ystad ar gyfer treth etifeddiant £

gwerth net cymwys yr ystad £

**6.4** A ydych yn hawlio yn erbyn yr ystad hwn y gyfran o'r dreth etifeddiant band cyfradd sero nas defnyddiwyd gan ddiweddar briod neu bartner sifil yr unigolyn a fu farw?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

**6.5** Darparwch werth gros a gwerth net yr ystad ar gyfer profiant?

gwerth gros yr ystad ar gyfer profiant £

gwerth net yr ystad ar gyfer profiant £

**Ewch i Adran 8**

**6.6** Ydych chi wedi cael llythyr gan HMRC gyda'ch cod profiant unigryw?

☐ Do. Y cod yn y llythyr gan HMRC oedd

Y gwerthoedd ar gyfer profiant o'r llythyr gan HMRC

Gwerth gros £

Gwerth net £

**Ewch i Adran 8**

☐ Naddo. **Ewch i gwestiwn 6.7**

**Nodyn 6** – Cyn y gallwch wneud cais am grant profiant mae angen ichi gyfrifo gwerth ystad yr unigolyn sydd wedi marw. Yna mae angen i chi dalu unrhyw Dreth Etifeddiant sy'n daladwy neu allu dangos nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu.

Darllenwch sut i gyfrifo gwerth yr ystad a riportio ar ei werth i HMRC yn https://www.gov.uk/valuing-estate-of-someone-who-died

**Nodyn 6.3 –** Fe ddarperir y gwerth gros, y gwerth net a'r gwerth net cymwys ar gyfer IHT os bu ichi ddefnyddio'r adnodd gwirio IHT yn https://www.gov.uk/valuing-estate-of-someone-who-died/estimate-estate-value

**Nodyn 6.4 –** Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os yw gwerth net cymwys yr ystad rhwng £325,000 a £650,000

**Nodyn 6.5 –** Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddyd ar sut i gyfrifo'r gwerthoedd hyn yn https://www.gov.uk/applying-for-probate/before-you-apply

**Nodyn 6.6** – Fe anfonir y llythyr gan HMRC hyd at 20 diwrnod gwaith ar ôl i chi gyflwyno'r IHT400. Os nad ydych wedi cael y llythyr ar ôl 20 diwrnod gwaith, ffoniwch 0300 303 0654.

**6.7** Darparwch y rhifau o'r **IHT421**

Blwch 3 (gwerth gros) £

Blwch 5 (gwerth net) £

**Ewch i Adran 8**

**6.8** Darparwch y rhifau o'r **IHT207**

Blwch A (gwerth gros) £

Blwch H (gwerth net) £

**Ewch i Adran 8**

**Nodyn 6.7 –** Rhaid anfon ffurflenni IHT421 ac IHT400 i HMRC yn unig.
Ar ôl eu hanfon i HMRC arhoswch 20 diwrnod gwaith cyn cyflwyno'r cais profiant hwn.
I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/hmrc/inheritance-tax-account
Os yw'r swm a nodir ym Mlwch 5 yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

**Nodyn 6.8 –** Anfonwch ffurflen IHT207 i GLlTEF gyda'ch cais am brofiant. Os yw'r swm a nodir ym Mlwch H yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

## 7. Treth etifeddiant pan fu farw'r unigolyn cyn 31 Rhagfyr 2021

**7.1** Pa ffurflenni IHT wnaethoch chi lenwi?

- ☐ IHT205. **Ewch i gwestiwn 7.2**
- ☐ IHT400 yn unig. **Ewch i gwestiwn 7.3**
- ☐ IHT400 ac IHT421. **Ewch i gwestiwn 7.4**
- ☐ IHT207. **Ewch i gwestiwn 7.5**

**7.2** Darparwch y rhifau o'r ffurflen **IHT205**.

Blwch D (gwerth gros) £

Blwch F (gwerth net) £

**Ewch i Adran 8**

**Nodyn 7.2** – Anfonwch ffurflen IHT205 i GLlTEF gyda'ch cais am brofiant. Dylech gynnwys ffurflen IHT217 os yw'n berthnasol. Os yw'r swm a nodir ym Mlwch F yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

**7.3** Ydych chi wedi cael llythyr gan HMRC gyda'ch cod profiant unigryw?

☐ Do. Y cod yn y llythyr gan HMRC oedd

Y gwerthoedd ar gyfer profiant o'r llythyr gan HMRC

Gwerth gros £

Gwerth net £

**Ewch i Adran 8**

☐ Naddo. **Ewch i gwestiwn 7.4**

**Nodyn 7.3 –** Fe anfonir y llythyr gan HMRC hyd at 20 diwrnod gwaith ar ôl i chi gyflwyno'r IHT400. Os nad ydych wedi cael y llythyr ar ôl 20 diwrnod gwaith, ffoniwch 0300 303 0654.

**7.4** Darparwch y rhifau o'r **IHT421**

Blwch 3 (gwerth gros) £

Blwch 5 (gwerth net) £

**Ewch i Adran 8**

**Nodyn 7.4** – Rhaid anfon ffurflenni IHT421 ac IHT400 i HMRC yn unig.

Ar ôl eu hanfon i HMRC arhoswch 20 diwrnod gwaith cyn cyflwyno'r cais profiant hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/hmrc/inheritance-tax-account

Os yw'r swm a nodir ym Mlwch 5 yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

**7.5** Darparwch y rhifau o'r **IHT207**

Blwch A (gwerth gros) £

Blwch H (gwerth net) £

**Ewch i Adran 8**

**Nodyn 7.5 –** Anfonwch ffurflen IHT207 i GLlTEF gyda'ch cais am brofiant. Os yw'r swm a nodir ym Mlwch H yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

## DATGANIAD CYFREITHIOL

**Mae'r sawl sy'n llofnodi isod yn cadarnhau**

- Y byddant yn casglu'r ystad i gyd
- Y byddant yn cadw manylion llawn (rhestr) yr ystad
- Y byddant yn cadw cofnod llawn o sut y mae'r ystad wedi cael ei ddosbarthu
- Bod yr ystad yn 'ystad eithriedig' a bod domisil yr unigolyn a fu farw yn y DU (os bu i chi ateb 'Oedd' i gwestiwn
- 2.8 a 'Do' i gwestiwn 6.5 neu 7.2)

**Os bydd y Gofrestrfa Brofiant (y llys) yn gofyn i'r sawl sy'n llofnodi isod, byddant yn:**

- Darparu manylion llawn yr ystad a'r ffordd y cafodd ei ddosbarthu
- Dychwelyd y Grant Cynrychiolaeth i'r llys

**ac yn deall:**

- Y caiff y cais ei wrthod os na ddarperir yr wybodaeth (os gofynnir)
- Y gellir dwyn achos troseddol am dwyll yn erbyn y sawl sy'n llofnodi isod os penderfynir bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn anwir neu'n anonest yn fwriadol.

**Mae'r sawl sy'n llofnodi isod yn cadarnhau y byddant yn gweinyddu ystad yr unigolyn a fu farw yn unol â'r gyfraith, a bod y cais yn gywir.**

**Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am y grant (y rhai hynny a restrir yn Adran A) lofnodi isod.**

Enw'r **ceisydd cyntaf**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

Enw'r **ail geisydd**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

Enw'r **trydydd ceisydd**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

Enw'r **pedwerydd ceisydd**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

**Anfonwch y ffurflen wreiddiol wedi'i llofnodi gan yr holl geiswyr gyda'r dogfennau angenrheidiol a'r taliad i:**
GLlTEF Profiant, Blwch Post 12625, Harlow, CM20 9QE
**Ffôn** 0300 303 0654
**E-bost** ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk

## AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG

### Sut mae'r ceiswyr yn gymwys i wneud cais.

Ym mha gapasiti y mae'r unigolion sy'n gwneud cais yn gallu gwneud cais?

- [ ] Mae'r sawl sydd wedi llofnodi yn wraig neu'n ŵr neu'n bartner sifil i'r unigolyn sydd wedi marw
- [ ] Mae'r sawl sydd wedi llofnodi yn blentyn/blant i'r unigolyn sydd wedi marw
- [ ] Mae'r sawl sydd wedi llofnodi yn ŵyr/wyrion neu'n wyres/wyresau i'r unigolyn sydd wedi marw ac maent yn fab neu'n ferch i blentyn sydd wedi marw yn ystod oes yr unigolyn sydd wedi marw
- [ ] Mae'r sawl sydd wedi llofnodi yn rhiant/rhieni i'r unigolyn sydd wedi marw
- [ ] Mae'r sawl sydd wedi llofnodi yn frawd (frodyr) neu'n chwaer (chwiorydd) gwaed coch cyfan/hanner gwaed i'r unigolyn sydd wedi marw
- [ ] Mae'r sawl sydd wedi llofnodi yn nith/nai (nithoedd/neiaint) gwaed coch cyfan/hanner gwaed i'r unigolyn sydd wedi marw ac maent yn fab neu'n ferch i frawd neu chwaer yr unigolyn sydd wedi marw a fu farw yn ystod eu hoes.
- [ ] Arall (Nodwch y rheswm dros wneud cais yn y blwch isod)